Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Cynradd: Pecyn Etholiad Lleol



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

## Cynradd: Pecyn Etholiad Lleol

**Beth am gynnal etholiad yn eich dosbarth chi?**

**Y System Bleidleisio**
Y Cyntaf i'r Felin

**Dros Bwy Rwyf Yn Pleidleisio?**
Cynghorydd i gynrychioli eich ward ar y cyngor lleol.

**Sut i bleidleisio:**
Darllenwch y cyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau'r papur pleidleisio'n ofalus bob amser, hyd yn oed os ydych chi wedi pleidleisio o'r blaen.

Mae'r papur pleidleisio'n rhestru enw pob ymgeisydd, ynghyd ag enw neu ddisgrifiad eu plaid, logo'r blaid a'u cyfeiriad.

Yn syml, rhowch X (croes) wrth ymyl yr ymgeisydd yr hoffech chi bleidleisio drosto/drosti.

Os ydych chi'n gwneud camgymeriad, gallwch chi ofyn i'r staff pleidleisio roi papur pleidleisio arall i chi.


Efallai y byddwch chi hefyd yn pleidleisio mewn etholiadau eraill ar yr un diwrnod.

**Pwy Sy'n Cael Eu Hethol?**
Yr ymgeisydd sydd â'r mwyafrif o bleidleisiau sy'n cael eu hethol; nid oes angen iddyn nhw gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd. Os oes pleidleisiau cyfartal, dewisir ymgeisydd drwy dynnu ar hap (h.y. dull dewis ar hap fel taflu ceiniog neu dynnu enw allan o het).

**Cliciwch :-**
– i weld sut i wneud **rhosglwm** i gefnogi eich plaid
– i gael templed **maniffesto** ar gyfer eich plaid
– i gael **papurau balot** ar gyfer eich etholiad

Cofiwch fod Pecyn Cyflawn Etholiad Ysgol ar sut i gynnal etholiadau yn eich ysgol ar ein Gwefan Addysg. www.chwilotaynycynulliad.org *(tab - Ar Gyfer Athrawon > Adnoddau > Cynradd).*

# Dangoswch eich cefnogaeth i'ch plaid drwy wneud rhosglwm.



Mae gwisgo eich rhosglwm yn lliw eich plaid yn ffordd wych o ddangos eich cefnogaeth i'ch plaid a'i hymgeisydd. Dylai pob aelod o blaid gael un!

**Dyma beth fydd ei angen arnoch i wneud rhosglwm:**

- Templed o rosglwm.
- Papur lliw
- Pinnau ffelt lliw
- Siswrn
- Glud
- Pin cau neu felcro

1. Copïwch y templed ar bapur lliw neu lliwiwch y siapiau gan ddefnyddio'r pinnau ffelt lliw neu baent.

2. Torrwch allan y cylch lleiaf a rhowch logo eich plaid ac enw eich ymgeisydd arno.


3. Torrwch allan y siapiau eraill a gludwch ben lleiaf y siapiau bach i'r cylch mawr.

4. Gludwch y ddau siâp hir (neu gallwch ddefnyddio rhuban) i gefn y cylch mawr.

5. Gludwch y cylch bach i ganol y cylch mawr.

6. Rhowch y pin cau neu'r felcro ar y cefn.

# Templed Rhosglwm



# Creu Maniffesto

Rhestr o syniadau ynglyn â'r hyn yr hoffech chi weld eich cyngor lleol yn llwyddo i'w wneud yw maniffesto.

**Os cawn ein hethol mae y blaid hon yn addo:**

Er mwyn gwella ein cymuned rydym am:

________________________________________

________________________________________

Er mwyn gwella ein amgylchedd rydym am:

________________________________________

________________________________________

Er mwyn gwella yr hyn yr ydym yn ei fwyta rydym am:

________________________________________

________________________________________

Er mwyn gwella adnoddau ein hysgol rydym am:

________________________________________

________________________________________

________________________________________

**ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL** **LOCAL COUNCIL ELECTIONS**

**PAPUR BALOT** **BALOT PAPER**

**Vote for one candidate only** **Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig**

**Mark an ✕ in one box.** **Marciwch ✕ mewn un blwch**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **Y Blaid Goch**<br>**The Red Party** | | |
| **2** | **Y Blaid Werdd**<br>**The Green Party** | | |
| **3** | **Y Blaid Las**<br>**The Blue Party** | | |
| **4** | **Y Blaid Felyn**<br>**The Yellow Party** | | |
| **5** | **Y Blaid Binc**<br>**The Pink Party** | | |